



Ysgol Tryfan

Cyflawni Potensial TGAU 2015

Canllaw i Rieni Ysgol Tryfan



Ysgol Tryfan

Camau i rieni/warcheidwaid

- Sut y dylech gefnogi eich plentyn yn ystod cyfnod yr arholiadau
- Strategaethau Adolygu
- Paratoi am arholiadau
- Cofiwch - gellir trafod unrhyw fater sy'n eich pryderu gyda'r ysgol



Ysgol Tryfan

Mae amser yn brin.....

- Strategaethau llwyddo – rhaid cael rhaglen adolygu galed yn ei lle am y mis olaf hwn
- Diwrnod olaf blwyddyn 11 yn yr ysgol fydd dydd Gwener Mai 22ain.
- Cynhelir cyfarfod ffurfiol ar y prynhawn hwnnw i ddathlu'r achlysur ac i gychwyn cyfnod astudio annibynnol.
- Ar ôl Mai 22 ni fydd disgwyl i'r dysgwyr ddod i'r ysgol – dim ond ar gyfer yr arholiadau ac unrhyw gyfnod adolygu a drefnwyd gan staff.



Ysgol Tryfan

Arholiadau TGAU

- Bydd gan bob dysgwr amserlen arholiadau unigol. Dylai ddod â'r daflen hon i bob arholiad gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth bwysig.
- Sicrhewch fod eich plentyn yn gwybod pa arholiad sydd ganddo/i bob diwrnod, a pha bryd – bore neu brynhawn.
- Gwiriwch fod yr offer priodol gan eich plentyn ar gyfer pob arholiad.



Ysgol Tryfan

Materion yn ystod y cyfnod arholiadau

- Salwch – Cysylltwch â'r ysgol ac ewch i weld y meddyg teulu.
- Materion Bugeiliol – cysylltwch â'r Pennaeth Blwyddyn Mr Meurig Jones am gefnogaeth.
- Materion Pynciol – cysylltwch â'r swyddog arholiadau Mr Dyfrig Jones am gyfarwyddyd neu gall eich plentyn weld yr athro/athrawes pwnc.



Ysgol Tryfan

Sut i helpu fy mhlentyn?

- Gofynnwch iddynt yn rheolaidd a ydynt angen cymorth. Eu hatgoffa'n addfwyn sy'n gweithio orau!
- Byddwch yn amyneddgar. Yn aml mae pobl ifanc yn gallu bod yn afresymol mewn cyfnod o arholiadau a gall hyn arwain at ffraeo. Yn aml gall y tymer hwn guddio ansicrwydd neu ofn.
- Allwch chi ddim eu gorfodi nhw i adolygu – ond gellwch bwysleisio pam ei bod yn bwysig iddynt wneud hynny.
- Ceisiwch ymateb yn gadarnhaol i amheuon negyddol – ond byddwch yn realistig.
- Sicrhewch fod eich plentyn yn bwyta prydau rheolaidd ac yn bwyta prydau maethlon. Bwydo'r ymennydd!



Ysgol Tryfan

Delio â phryderon arholiadau cyffredin

“ Mae gen i gymaint i’w ddysgu!”

- Lluniwch galendr adolygu
- Nodwch ddyddiadau allweddol a’r arholiadau.
- Rhannwch y diwrnodau adolygu’n dair rhan – sesiynau bore, prynhawn a nos.
- Canolbwyntiwch ar destunau pendol.
- Sicrhewch raglen adolygu amrywiol – o ran pynciau a gweithgareddau.



Ysgol Tryfan

Delio â phryderon arholiadau cyffredin

“Alla’i ddim canolbwyntio!”

- Mae gallu pob unigolyn i ganolbwyntio yn amrywio.
- Gellir cychwyn trwy weithio am gyfnodau byrion.
- Gellir cyflwyno’r egwyddor o osod goliau a gwobrau rhesymol.



Ysgol Tryfan

Delio â phryderon arholiadau cyffredin

“ Dwi angen gorffwys!”

40 munud o adolygu

10 munud o brofi

10 munud o orffwys



Ysgol Tryfan

Delio â phryderon arholiadau cyffredin

“ Mae hyn mor ddiflas!!”

- Yn y bôn nid hwyl yw adolygu!
- Gellir bod yn weithredol wrth adolygu.
- Defnyddiwch ystod eang o dechnegau sy'n gweddu orau i'ch plentyn
- Dylid cael amrywiaeth a thargedau.



Ysgol Tryfan

Delio â phryderon arholiadau cyffredin

“Dwi’n adolygu orau yn fy ngwely!”

- Sicrhewch le tawel a phriodol i adolygu heb ddim i darfu ar y gwaith.
- Mynnwch fod cyfnodau adolygu yn gyfnodau heb deledu, gemau cyfrifiadur na ffonau symudol.
- Sicrhewch le priodol wrth fwrdd neu ddesg.
- Gellir caniatáu cerddoriaeth dawel yn y cefndir.



Ysgol Tryfan

Delio â phryderon arholiadau cyffredin

“Alla’i gofio dim!”

- Yn aml dyma gri am help
- Defnyddiwch ddulliau ailadrodd gwybodaeth ar ddiwedd cyfnod adolygu.
- Defnyddwch dechnegau adolygu pwrpasol i hybu’r cof – megis siartiau llif, post-its neu uwch oleuo termau pwysig.



Ysgol Tryfan

Delio â phryderon arholiadau cyffredin

“Dwi ddim yn deall!”

- Dylai eich plentyn weld yr athro pwnc
- Mae rhai deunyddiau cefnogol ar *Moodle* yr ysgol
- Defnyddiwch amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys llyfrau gosod, llyfrau adolygu a nodiadau, a gwefan Bitesize y BBC.
- Mae'r byrddau arholi yn cynnig arweiniad hefyd – gweler www.CBAC.co.uk



Ysgol Tryfan

Cyngor gan Rieni

“Fel rhiant nid yw byth yn syniad da i ffraeo am adolygu, er eich bod weithiau’n tynnu gwallt eich pen. Arhoswch yn bwyllog a byddwch yn barod i drafod amser rhydd a gwobrau.”

“Peidiwch â cheisio gorfodi eich plentyn i eistedd wrth fwrdd am oriau yn adolygu yn groes i’w ewyllys. Mae hyn yn anobeithiol. Dylech annog cyfnodau byr o adolygu ar y dechrau.”



Ysgol Tryfan

Cyngor gan Rieni

“Dylech eu hannog i siarad gyda chwi am eu gwaith. Mae’n llesol iddynt wybod yn gyson fod gennych ddiddordeb!”

“Helpwch y plentyn i beidio cynhyrfu. Y pwyslais bob amser yw ceisio gwneud eu gorau a gadael yr arholiad gan wybod eu bod wedi ymdrechu i orau eu gallu.”



Ysgol Tryfan

Cyngor gan Rieni

“Pan fyddwch yn teimlo’n flin ac o dan straen cymerwch gam yn ôl. Gofynnwch am gymorth gan aelod arall o’r teulu. Rhennwch y boen!”

“Cynlluniwch amser hamdden heb yr ymdeimlad o euogrwydd – bydd yr adolygu’n well wedyn. Caniatewch gyfnod o chwarae heb edliw!”

“Trefn! Trefn! Trefn!”



Ysgol Tryfan

Cyngor gan Rien

“Sicrhewch leoliad astudio personol iddynt.
Ceisiwch drefnu rhaglen adolygu fesul
pwnc. Dylech arddangos yr amserlen
adolygu yn y tŷ”

“Cadwch mewn cysylltiad cyson â nhw.
Cynigiwch anogaeth iddynt yn ddyddiol –
ond peidiwch â swnian!”



Ysgol Tryfan

I gloi.....

Dylid eu hatgoffa y bydd yr holl arholiadau wedi dod i ben erbyn canol Mehefin – gan adael gwyliau haf haeddiannol o hir a heulog (gobeithio!)

Bydd y canlyniadau ar gael yn neuadd yr ysgol am 8.00 y.b. ar ddydd Iau Awst 20fed – a bydd staff ar gael i gefnogi a chynghori.

Pob Lwc!